Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Llanystumdwy
## Llanystumdwy
## Cricieth
## Gwynedd
## LL52 0SP

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llanystumdwy

Lleolir Ysgol Gynradd Llanystumdwy, sydd o dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, ym mhentref Llanystumdwy ger Cricieth yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 22 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 2 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 2 ddosbarth oedran cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (19%). Mae tua 70% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Nid oes disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth mewn gofal i'w swydd ym mis Ionawr 2011. Ers Ebrill 2017, mae hi hefyd yn gweithredu fel pennaeth mewn ysgol arall gyfagos. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Nodweddion arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd a'r berthynas waith effeithiol rhwng y disgyblion a'r staff. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli ynddi a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn creu cyfeiriad strategol clir sy'n seiliedig ar safonau uchel a sicrhau lles disgyblion. Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac mae'r staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r disgyblion yn elwa o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu hysgogi i ddysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion i drin data ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod disgyblion cyfnod allweddol 2 yn fwy ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A3 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd tebyg i'r rheini a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Er bod yr iaith Gymraeg yn iaith newydd i'r lleiafrif, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar a gwrando. O oed cynnar, maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn sgwrsio'n hyderus, er enghraifft wrth drafod eu gwaith ar fôr-ladron. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae gan ran fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith ac yn ei defnyddio i gymdeithasu amser chwarae ac yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hunain yn glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd. Maent yn awyddus iawn i gyfrannu at drafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa bynciol yn hyderus, er enghraifft wrth drafod canfyddiadau eu hymholiad gwyddonol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 1, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau yn y 'pentref prysur'. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio eu medrau yn gymwys i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am losgfynyddoedd.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 1, maent yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan ddechrau defnyddio cystrawen briodol, er enghraifft wrth ailadrodd y stori 'Mynd i Hela'r Arth'. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr personol at Bendigeidfran ac ymson Branwen wedi eu seilio ar chwedlau'r Mabinogi. Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn effeithiol mewn amrywiaeth o bynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cyflwyno gwybodaeth ddiddorol am Wlad yr Iâ ac yn creu dadl aeddfed ynglŷn ag a oedd bywyd yng Nghymru yn well cyn neu ar ôl dyfodiad y Rhufeiniaid. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n drafftio ac ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol wrth gyflawni tasgau ysgrifennu ymestynnol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da. Mae rhan fwyaf disgyblion Blwyddyn 1 yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth brynu dillad ar gyfer chwarae rôl fel môr-ladron.

Mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth fesur faint mae hadau blodau haul wedi tyfu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac, erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gymharu prisiau a deall beth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio mapiau yn ddeallus wrth ddarganfod a chymharu poblogaeth yn y Wladfa.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd cyhoeddi i gyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd lliwgar a deniadol. Maent yn bwydo cyfres o gyfarwyddiadau'n gywir er mwyn symud tegan ar hyd llwybr penodedig. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am weilch y pysgod. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno'u gwaith, er enghraifft am gestyll Gogledd Cymru. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data, er enghraifft wrth gasglu tystiolaeth a'i harddangos ar ffurf graff a'i ddehongli neu sut i greu cronfeydd data i ddadansoddi tytiolaeth a dilyn trywyddau ymholi penodol ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a chroesawgar iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu awyrgylch dysgu effeithiol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn ystod amser egwyl a chinio. Maent yn dysgu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd ar y buarth ac yn barod iawn i gefnogi ei gilydd mewn amrywiaeth dda o wahanol sefyllfaoedd, er enghraifft mewn gweithgareddau grŵp a gwasanaethau ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau positif at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae gallu rhan fwyaf o'r disgyblion i wella eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion o dan gyfarwyddyd athro yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n ymwybodol o'u targedau gwella ac yn gwneud dewisiadau annibynnol mewn perthynas â'u dysgu.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau corfforol o fewn yr ysgol a thu hwnt sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd.

Mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd iddynt leisio barn ac i chwarae rhan bwysig yn eu cymuned. Mae’r athrawon yn rhoi cyfrifoldeb iddynt arwain agweddau ar fywyd yr ysgol ac i ddatblygu eu medrau’n fwriadus, er enghraifft trwy arwain gwasanaethau boreol ac wrth gynllunio a chynnal gweithgareddau ar gyfer codi arian yn ffeiriau’r ysgol. Mae llawer o’r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth briodol o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft clwb coginio, clwb ffitrwydd a ‘Chlwb y Llan’, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygu eu dealltwriaeth o fyw’n iach. Mae llawer o’r disgyblion yn cyfrannu’n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau cymdeithasol a chystadlaethau lleol, er enghraifft drwy weithgareddau yn ystod cyfnod y Grawys, yr eisteddfod leol a mynychu gwasanaeth Sul y Cofio. Maent yn cyfrannu’n gyson tuag at elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i’r holl ddisgyblion dderbyn amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog. Mae athrawon yn cyflwyno themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus sy’n ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion ac yn cryfhau eu hymrwymiad i’w gwaith yn effeithiol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi’u gwreiddio’n gadarn. Mae’r holl athrawon yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau’r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at eu medrau llafar. O ganlyniad, mae gan lawer o’r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u treftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy astudio chwedlau lleol a hanes y Tywysogion Cymreig. Trefnir ymweliadau gwerthfawr, er enghraifft i Gaerdydd, i Wersyll yr Urdd Glan Llyn ac i ganolfan astudio’r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r athrawon yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae’r athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh i gywain a chyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh, er enghraifft i greu cronfeydd data a dadansoddi tystioleth er mwyn dilyn trywyddau ymholi penodol, wedi datblygu’n ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol gyda’r disgyblion, sy’n meithrin awyrgylch ddysgu gefnogol a gweithgar. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu’n effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i’r sesiynau. Maent yn cysylltu eu gwersi’n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau’n fedrus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o’u tasgau’n llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy’n cael eu harwain gan oedolion a

chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, ar adegau, mae oedolion yn tueddu i or-gyfarwyddo gweithgareddau ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar effeithiol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant. Mae sylwadau ysgrifenedig athrawon yn cynnig adborth buddiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith dilynol, ond nid oes digon o gyfleoedd i wella cynnwys y gwaith bob tro. O ganlyniad, lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd â dealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel ymddiried, rhannu a gwerthfawrogi. Daw aelodau o'r gymuned leol i'r ysgol yn wythnosol er mwyn darllen a thrafod gwahanol storïau o'r Beibl gan gyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i drefnu a chyflwyno gwasanaethau sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o agweddau moesol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn darparu cynllun addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol sy'n meithrin agweddau megis parch, goddefgarwch a chydraddoldeb yn dda. Mae'r ysgol yn trefnu ymwelwyr ac ymweliadau addysgol cyfoethog sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd meithrin agweddau cymdeithasol cadarn. Er enghraifft, cymryd rhan yn y prosiect Lleisiau Bach, sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o'r heriau sy'n wynebu pobl ag anableddau, a phwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb mewn cymdeithas. Mae hyn yn cael effaith dda ar eu gallu i drafod, i gydweithio ac i barchu safbwyntiau ei gilydd am faterion cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r holl ddisgyblion leisio barn ac i ddylanwadu ar elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft wrth iddynt bennu disgybl yn swyddog presenoldeb er mwyn gwella cyfraddau presenoldeb. Mae'r athrawon yn trefnu gweithgareddau mentergarwch gwerthfawr, er enghraifft trwy'r prosiect creu bagiau brethyn. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau mentergarwch, llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni a'r gymuned. Mae'r pennaeth yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnig gwybodaeth amserol i rieni. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn, ac o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi dysgu eu plant. Mae cyfeillion yr ysgol yn cyfrannu cyllid sylweddol, er enghraifft drwy brynu adnoddau TGCh sy'n galluogi'r ysgol i wireddu'r Fframwaith

Cymhwysedd Digidol. Maent hefyd yn cryfhau'r bartneriaeth trwy hybu gweithgarwch yn yr ardal allanol a helpu gyda gweithgareddau celf a chrefft. Mae cysylltiadau amrywiol gyda'r gymuned leol, er enghraifft trwy ddathlu pen-blwydd Lloyd George yn flynyddol ac ymweld ag amgueddfeydd llechi'r ardal leol er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu ymwybyddiaeth a pharch disgyblion tuag at amrywiaeth o fewn Cymru a'r byd yn dda. Enghraifft llwyddiannus o hyn yw astudiaeth disgyblion cyfnod allweddol 2 o wahanol wledydd y byd fel rhan o'u thema ar Bortmeirion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau creadigol a pherfformio'r disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu llwyddiant wrth gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â'u gwaith creadigol. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio ag actorion ac artistiaid wrth gymryd rhan mewn prosiect creadigol yn ymwneud â chwedlau Cymreig a storïau Saesneg. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion sgriptio a chynhyrchu ffilmiau byrion am chwedl newydd o'r enw Crisialau'r Gwynfryn a chreu clogynnau, pypedau a masgiau er mwyn cyflwyno rhan benodol o stori. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus i gyfathrebu o flaen eu cyfoedion a chynulleidfaoedd ehangach. Mae hefyd yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg, sillafu Saesneg a TGCh disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn teilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a chymryd camau priodol i fodloni eu hanghenion o fewn y dosbarth. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer unigolion ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn addas yn y broses o'u llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn y mae'n eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws cryf ar ddarparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi diwylliant a hanes eu hardal leol yn fawr.

Mae ethos amlwg o gydweithio agos iawn yn bodoli yn yr ysgol. Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n effeithiol a chydwybodol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod, cynllunio ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol, yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Enghraifft dda o hyn yw ymroddiad athrawon wrth baratoi'n bwrpasol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Caiff staff gyfleoedd addas i wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion lleol eraill. Mae rôl y pennaeth fel pennaeth strategol yng ngofal dwy ysgol wedi arwain at gydweithio llwyddiannus rhyngddynt. Bu hyn, er enghraifft, yn gyfle i athrawes y cyfnod sylfaen ddatblygu ei medrau rheolaethol yn effeithiol fel pennaeth cynorthwyol. Mae'r cydweithio rhwng y ddwy ysgol yn cael effaith bositif ar safonau a'r ddarpariaeth ac yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol yr athrawon, er enghraifft wrth iddynt gydgynllunio a rhannu arfer dda. Mae'r disgyblion hŷn wedi elwa o graffu ar lyfrau Saesneg yr ysgol arall a chynnig sylwadau ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn helpu i ddatblygu'r arfer asesu ar gyfer dysgu ac yn arwain at godi safonau ysgrifennu. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i staff rannu arfer dda tu hwnt i'r ardal leol.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y dysgu a'r addysgu er mwyn monitro cynnydd disgyblion. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth briodol i farn disgyblion a rhieni am agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae cyswllt da rhwng yr adroddiad hunanarfarnu â'r cynllun gwella ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr i'r llywodraethwyr sydd yn dangos lle mae angen gwelliant pellach.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac maent yn chwarae rôl gynyddol mewn prosesau hunanarfarnu. Trwy gydweithio effeithiol â'r pennaeth a'r dirprwy, sgwrsio gyda disgyblion a chraffu ar eu llyfrau gwaith, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i wneud penderfyniadau ac wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn llwyddo i gefnogi a herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Gwnânt ddefnydd effeithiol o arbenigeddau unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Maent yn cysylltu gwariant yn briodol a blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro cyllid yn ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2018